


Rhif: 39

Enw'r Ardal
Cymeriad Morwedd:


Dinbych y Pysgod ac Ynys Bŷr



ACM39:Dinbych-y-pysgod ac Ynys Bŷr



Dinbych y Pysgod a'r meindwr o'r de



Traeth y Gaeidd a'r harbwr yn Dinbych y Pysgod



Dinbych y Pysgod- sailing dinghy activity off North Beach



Golwg o Ynys Byr o draeth y De

Disgrifiad Cryno

Lleolir yr ardal hon ar ochr orllewinol Bae Caerfyrddin gyda Dinbych y Pysgod a'i ddau draeth mawr ar arfordir y tir mawr ac Ynys Bŷr i'r de. Mae Dinbych y Pysgod yn lle gwyliau poblogaidd gyda harbwr a thraethau prysur a defnyddir y môr ar gyfer hwylio a chychod pleser mewn dyfroedd diogel a chysgodol, yn cynnwys teithiau draw i Ynys Bŷr. Mae'r fynachlog ar yr ynys yn cyfyngu ar ymwelwyr ac mae gan yr ynys lonyddwch sy'n llai amlwg ar y tir mawr. Mae Dinbych y Pysgod gyda'i meindwr, tai Sioraidd ac Ardal Gadwraeth yn dirnod a nodwedd bwysig ar yr arfordir.

Nodweddion Allweddol

- Rhan gymharol gysgodol o fôr ar ochr orllewinol Bae Caerfyrddin yn gaeedig i'r de gan Ynys Bŷr a Phwynt Giltar.
- Arfordir sy'n wynebu i'r de ddwyrain gyda thref gwyliau Dinbych y Pysgod a dau draeth poblogaidd bob ochr iddi.
- Mae tref gydag Ardal Gadwraeth, meindwr eglwys a thai Sioraidd ar glogwyni yn dominyddu'r arfordir gydag Ynys y Santes Catherine yn amlwg iawn.
- Tu ôl i Draeth y De mae yna dwyni a chwrs golff.
- Mae Ynys Bŷr gyda'i mynachlog a'i goleudy yn lle tawel lle rheolir yr ymwelwyr yn ofalus iawn.
- Mae yna harbwr ar gyfer cychod pysgota a gorsaf bad achub a defnyddir y môr ar gyfer hwylio, hyfforddi hwylio a badlongau pleser mewn dyfroedd cymharol ddiogel a chysgodol, yn cynnwys teithiau i Ynys Bŷr.
- Golygfeydd pell allan i'r môr (yn cynnwys Ynys Wair o Ynys Bŷr) ond hefyd draw i Benrhyn Gŵyr i'r dwyrain.

Nodweddion Ffisgeol

Mae'r pentir y tu ôl i Draeth y De Dinbych y Pysgod hyd at Graig Gosgar yn cynnwys Calchfaen Carbonifferaidd trawiadol 50-90m ar draws, wedi'i ffinio gan glogwyni ar y pegynau hyd at 30m. Mae Traeth y De Dinbych y Pysgod yn draeth hir sy'n wynebu'r dwyrain rhwng Trwyn Giltar a Chraig Sger/Ynys y Santes Catherine. Mae Ynys Bŷr yn gorwedd 1km alltraeth i'r de ddwyrain wedi'i gwneud o galchfaen ar wahân i'r de (yn SCA37) Ar Ynys Bŷr (57.aod) mae'r clogwyni yn 30-40m o uchder o gwmpas arfordir creigiog yn gyffredinol gyda baeau yn bylchu'r cyfan. Mae ardaloedd rhynglanw wedi'u dominyddu gan fae tywod Traeth y De a childraethau ar Ynys Bŷr (64%) tra bod arfordiroedd creigiog o gwmpas Ynys Byr a thrwynau'r pentir (34%) Mae erydu arfordirol o'r calchfaen trwy wyntoedd a thonau yn digwydd trwy grydiad, hydoddiant ac athreuliad. Mae traeth hir tywod Traeth y De yn Ninbych y Pysgod a'r twyni yn gefn iddo yn y de (y Burrows) yn atebol i ddrifft arfordirol gwaddodion, gyda chludiant gwaddodion trwy dyniant daliant a neidiant. Mae clogwyni a phentiroedd tywodfaen carbonifferaidd a sialau yn derfyn ar draeth y gogledd yn Ninbych y Pysgod.

Mae gan y gwely môr bas (<30m) waddodion tywodlyd dros y calchfaen, ac yn goleddu o fod yn gan bwyll(<1°) yn y bae i fod yn gymedrol (<10°) oddi ar yr arfordir creigiog. Cysgodir y môr yn dda oddi wrth wasgiant y gwynt a'r tonnau, yn enwedig ar hyd yr arfordir sy'n wynebu'r dwyrain. Mae Ynys Bŷr yn fwy agored. Mae llif y llanw wedi'i osod i'r dwyrain a'r gorllewin, ond yn llifo i'r gogledd ddwyrain a de orllewin trwy Ynys Bŷr. Mae llif y llanw trwy'r swnd yn gallu cyrraedd 2.5knots. Mae amrediad y llanw yn 7.7m

Mae Bae Caerfyrddin i'r alltraeth yn SPA ac yn Ardal Adar bwysig sy'n dal 33,000 adar dŵr gaeafol yn rheolaidd megis sgoter. Mae Clogwyni Dinbych y Pysgod, Ynys y Santes Catherine a Phenrhyn Lydstep a Burrows Dinbych y Pysgod yn SSSIs ac felly mae gan yr ardal ddi-ddordeb cadwraeth natur arwyddocaol. Mae'r rhywogaethau yn cynnwys dwrgwn ac ystumod.

Dylanwad diwylliannol

Mae lleoliad Dinbych y Pysgod ar y pentir yn ei wneud yn lle delfrydol ar gyfer rheoli masnach forol ym Môr Hafren; mae ganddo gysylltiadau hir ag Iwerddon a chyfandir Ewrop. Mae Ynys Bŷr yn arddangos pwysigrwydd cymuned ar ynys i'r delfryd mynachaid; daeth mynachod yno gyntaf nôl yn y 6ed ganrif. Yn 1906 prynodd y Benedictiaid Anglicanaidd Ynys Bŷr. Ers 1929 Urdd y

Sistersiaid sydd berchen yr ynys. Mae'r abaty presennol mewn arddull Eidalaidd yn galw i gof afael rhyngwladol yr urdd fynachaidd.

Mae muriau Dinbych y Pysgod yn arwydd o'i phwysigrwydd a'r angen i'w gwarchod. Mae Dinbych y Pysgod wedi bod yn borthladd ffyniannus ers y Canol Oesoedd; mae'r enw Cymraeg Dinbych y Pysgod yn arwydd o bwysigrwydd y fasnach bysgota. Gallai fod wedi denu'r Llychlynwyr ond fe'i datblygwyd fel bwrdeistref-castell gan y Normaniaid. Daeth yn boblogaidd iawn fel lle gwyliau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan arweiniodd yr angen am gyfleusterau glanio gwell at sythu a lledaenu'r pier. Mae'r harbwr yn strwythur carreg castellolog sy'n dyddio nôl i 1848. Mae Ardal Gadwraeth y dref yn cynnwys Traeth y Gogledd i gyd a'i gefnfor, muriau'r dref, Rhiw'r Castell, Ynys y Santes Catherine a Thraeth y De sy'n wynebu'r môr. Esbonnir ei nodweddion allweddol yn cynnwys yr uchod a'r bensaernïaeth Sioraidd yn y datganiad Ardal Cadwraeth. Mae'r ardal y tir yn gorwedd yn LCA2: Dinbych y Pysgod

Mae henebion cofrestredig yn cynnwys:

- PE007 (mur y dref): cymuned: Dinbych y Pysgod
- PE163 (castell): cymuned: Dinbych y Pysgod
- PE424 (Ogof Nanna (Cyn-hanesyddol/aml-gyfnod): cymuned: Dinbych y Pysgod
- PE425 (ogof): cymuned: Dinbych y Pysgod
- PE426 (Safle Craig Mesolithic Golau Dydd - ogof): cymuned: Dinbych y Pysgod
- PE436 (ciln): cymuned: Penalun
- PE439 (ban): cymuned: Penalun
- PE450 (Caer Santes Catherine): cymuned: Dinbych y Pysgod

Mae 'Etmic Dinbych' (' Dinbych y Pysgod Er Clod') o Lyfr Taliesin y 9fed ganrif ymhlith yr hynaf o gerddi Cymraeg. Magwyd Robert Recorde (c.1512-1558) yn Ninbych y Pysgod. Ymwelodd Nelson a Ledi Hamilton â'r lle. Mae artistiaid megis John Knapp wedi darlunio golygfeydd yn Ninbych y Pysgod.

Dim ond dau longdrylliad sy yn yr ardal- un yn agos i Ddinbych y Pysgod a'r llall yn ymyl Ynys Bÿr.

Mae arfordir y tir mawr yn cael ei ddominyddu gan dref gwyliau a physgota darluniadol Dinbych y Pysgod wedi'i lleoli ar dir codi ac yn ymestyn allan i Fryn y Castell, tir llawn llai, sy'n rhannu traethau'r Gogledd a'r De, ac sy'n amddiffyn yr harbwr rhag gwyntoedd cyffredin. I'r de mae yna dir pori, twyni tywod, glaswelltir twyni a chwrs golff. Mae glaswelltir lled naturiol ar dywod yn gorwedd ar y clogwyni sy'n mynd o Drwyn Giltar i'r de. Mae'r tir sy wedi'i leoli yma yn LCA2: Dinbych y Pysgod.

O gwmpas y fynachlog ar Ynys Bÿr mae yna dir fferm cymysg gyda pheth coetir collddail a phlanhigfeydd coniferaidd ar dir sydd ar oledd o'r clogwyni uchel yn y de i'r lan is i'r gogledd gyda'i draeth braf. Mae'r llinyn ar yr arfordir yn cynnwys mosaig lled naturiol. Disgrifir yr ynys yn yr aseiad tirlun fel LCA3: Ynys Bÿr.

Mae yna bedwar angorfa ymwelwyr ger wal harbwr Dinbych y Pysgod. Mae hwylio dingi a chriwser yn cynnwys rasio yn boblogaidd, yn ogystal defnyddir cychod modur, badau diwrnod a sgïo jet. Mae teithiau bywyd gwyllt a physgota yn gadael Harbwr Dinbych y Pysgod yn rheolaidd yn ogystal â'r cwch i Ynys Bÿr. Mae caiacio yn digwydd ar hyd arfordir y tir mawr a'r ynys. Mae syrffio yn boblogaidd, yn enwedig tua phen gogleddol Traeth y Gogledd a gellir dod o hyd i syrffio gwynt ar draws y bae. Mae peth deifio a snorkelio yn digwydd o gwmpas Ynys y Santes Catherine sy ger Dinbych y Pysgod. Mae pysgota môr o gychod ac o'r lan yn boblogaidd ac mae cychod pysgota lleol wedi gosod potiau o gwmpas dyfroedd y tir mawr a'r ynys. Mae rhwyfo môr hefyd yn digwydd allan o Ddinbych y Pysgod.

Mae harbwr Dinbych y Pysgod yn darparu cysgod i fflyd fechan o longau pysgota a llongau pleser gyda llithrfa yn nesaf at y traeth. Mae'n dref boblogaidd iawn i dwristiaid. Mae yna glwb iot ar y traeth ynghanol Dinbych y Pysgod. Mae gweithgareddau traeth yn boblogaidd ar draethau'r Gogledd a'r De.

Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn rhedeg y tu ôl i Draeth y Gogledd ac o gwmpas ymyl arfordirol y dref cyn rhannu ar hyd cefn y traeth neu'r Burrows ac yna rhedeg i'r de o gwmpas ymyl y clogwyn hyd at Drwyn Giltar.

Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys casglu cocos a chregyn bylchog â llaw, rhwydi sân ar y traeth, rhwydi gosod, gwichiad moch, potio cimwch a chrancod. Defnyddir yr ardal yn helaeth ar gyfer hwylio a rasio hwylio. Mae yna daith morio a ddefnyddir yn helaeth o'r fan hon o gwmpas yr arfordir i'r gorllewin tuag at Aberdaugleddau ac Abergwaun, ar draws Môr Hafren ac i fannau i'r dwyrain i gyfeiriad Bae Caerfyrddin. Mae yna nifer o lwybrau teithio ar draws i'r lwerddon.

Lleolir gorsaf bad achub newydd yn Ninbych y Pysgod. Mae'r adeilad newydd yn sefyll wrth ochr yr hen orsaf. Mae'r goleudy yng Nghapel Point ar Ynys Bŷr yn gymorth a thirnod llywio pwysig.

Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Mae gan y morwedd rhyw ymdeimlad o gyfyngiad a achosir yn rhannol gan Ynys Bŷr ond hefyd gan bentiroedd Bryn y Castell a Thrwyn Giltar. Mae'r syniad o raddfa yn gymedrol gyda thref Dinbych y Pysgod yn rhoi cyfeiriad dynol a graddfa. Mae yna amrywiaeth yn ffurfiau'r arfordir a chydbwysedd rhwng y ffurfiau naturiol a gwneud er bod yna nodweddion anghytgordiol i'r de o Ddinbych y Pysgod yn cynnwys yr ysgol a nodweddion MOD megis yr adeilad ar Drwyn Giltar. Mae traethau'r tir mawr a dyfroedd yr arfordir yn ardaloedd o weithgarwch gyda theithiau draw at Ynys Bŷr ac o'i chwmpas hi yn enwedig yn yr haf. Mae hyn yn cyferbynnu gyda thawelwch gorfodol a rheoledig Ynys Bŷr ei hun.

Mae'r golygfeydd allweddol draw at Ddinbych y Pysgod ac oddi yno, Ynys Bŷr a Thrwyn Giltar ac ar hyd yr arfordir. Mae meindwr Eglwys y Santes Fair yn Ninbych y Pysgod yn dirnod cadarn iawn.

Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu'n sylweddol tuag at wasanaethau hamdden ac adloniadol ar lun adloniant morol a thraethau, i dreftadaeth naturiol ar lun yr SSSIs arfordirol, ac i wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â phrydferthwch naturiol yr arfordir gydag Ynys Bŷr, y fynachlog, ac Ardal Gadwraeth Dinbych y Pysgod gyda'i furiau canoloesol a phensaerniaeth Sioraidd.

Rhesymau Dros Newid									
Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid								
<p>Erydu arfordirol araf o glogwyni creigiog ar Ynys Bŷr</p> <p>Cynllun Rheoli Traeth ar Ynys Bŷr yn y cyswllt yma yw Gwneud Dim.</p> <p>Ar Draeth y De Dinbych y Pysgod mae symudiad gwaddodion arfordirol yn cael ei gyfyngu gan Riw'r Castell ac Ynys y Santes Catherine.</p> <p>Mae argymhellion cynllun rheoli'r traethlin yn galw am adlunio rheoledig yn ardal y twyni tywod i ddal y llinell mewn mannau eraill.</p> <p>Gwasgfa Datblygiad ar Ddinbych y Pysgod.</p> <p>Defnydd adloniadol dwys yn arwain at erydu llwybr yr arfordir a chynefinoedd megis y twyni tywod ac o gwmpas Trwyn Giltar, ynghyd ag effaith ar gynefinoedd morol/arfordirol</p>	<p>Rhinweddau Arbennig</p>	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Gwasgedd ymwelwyr	Defnydd morol- masnachol a physgota	Ynni'r tir mawr neu fwynau	Gwasgedd datblygiad	Newidiadau rheoli tir	Defnydd MOD	
		Ysblander yr arfordir							
		Ynysoedd							
		Amrywiaeth y Tirlun							
		Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch							
		Daeareg Amrywiol							
		Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth							
		Archaeoleg Gyfoethog							
		Cymeriad Anheddiad Nodedig							
		Treftadaeth Ddiwylliannol							
		Mynediad i'r Parc							
		Lle i Anadlu							
		Allwedd		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig					
Sensitifeddu allweddol									
Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd	Ffactorau sy'n tynnu oddi wrth sensitifrwydd								
<p>Cymeriad tawel annatblygedig Ynys Bŷr.</p> <p>Golygfeydd o Ddinbych y Pysgod, y traethau a Thrwyn Giltar i Ynys Bŷr.</p> <p>Cymeriad hanesyddol Dinbych y Pysgod a nodweddion cysylltiol megis y meindwr ac Ynys y Santes Catherine a'u hamlygrwydd ar hyd yr arfordir.</p> <p>Cymeriad hanesyddol a defnydd crefyddol Ynys Bŷr.</p> <p>Mae Llwybr Arfordir Sir Benfro yn dderbynnydd sensitif.</p>	<p>Presenoldeb 20c tai a datblygiad digydymdeimlad yn Ninbych y Pysgod.</p> <p>Prysurdeb y dref.</p> <p>Mae'r symud a'r defnydd o'r traethau a'r môr yn lleihau'r tawelwch.</p> <p>Presenoldeb maes golff y Links.</p>								